
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Llais ac Iaith


## Adduned ar y Cyd rhwng Mwy na geiriau a Llais

**llyw.cymru**












LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

Mwy na geiriau
More than just words

Cymraeg



## 1. Cyflwyniad a Gweledigaeth ar y Cyd

**Mae Llywodraeth Cymru a Llais Cymru yn rhannu ymrwymiad i sicrhau bod pobl ledled Cymru yn gallu cael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn cydnabod nad yw'r Gymraeg yn ddim ond dull cyfathrebu – mae iaith person yn rhan sylfaenol o ddarparu gofal diogel, teg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn eu cefnogi.**

Mae'r Addunedau hwn yn sefydlu fframwaith ar gyfer cydweithio rhwng Tîm Mwy na geiriau yn Llywodraeth Cymru (sy'n cefnogi cyflawni cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer cryfhau darpariaeth Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol) a Llais Cymru, corff llais y dinesydd yng Nghymru.

Mae Llais Cymru yn Gorff Hyd Braich o Lywodraeth Cymru. Mae'n gorff statudol annibynnol, a'i rôl yw gwrando ar sylwadau a phrofiadau'r cyhoedd a defnyddwyr gwasanaeth er mwyn llywio'r broses gwneud penderfyniadau, cynllunio a darparu gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol gwell yng Nghymru.

**Mae'r Addunedau ar y Cyd hwn yn nodi ein huchelgais ar y cyd ac yn darparu fframwaith ar gyfer cydweithio i gryfhau darpariaeth Gymraeg ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, dan arweiniad egwyddorion a blaenoriaethau cynllun Mwy na geiriau.**

**Gyda'n gilydd, rydym yn ymrwymo i weithio mewn partneriaeth i sicrhau bod pobl, gofalwyr a chymunedau sy'n siarad Cymraeg yn gallu arfer eu hawliau, mynegi eu hanghenion a derbyn gwasanaethau sy'n parchu eu hiaith a'u diwylliant.**

**Mae'r Addunedau hwn yn nodi amcanion a rennir ar gyfer sicrhau hygyrchedd, darpariaeth a hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg, yn unol ag egwyddorion y Cynnig Rhagweithiol a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.**

## 2. Diben yr Adduned

Diben yr Adduned hwn yw sefydlu fframwaith eglur a chyffredin ar gyfer cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Llais Cymru. Wrth wneud hynny, bydd yr Adduned yn helpu i:

- Gefnogi cyflawni Mwy na geiriau drwy gryfhau darpariaeth gwasanaethau Cymraeg a gwasanaethau sy'n ymatebol yn ddiwylliannol.
- Cryfhau llais pobl a gofalwyr sy'n siarad Cymraeg yn unol ag Egwyddorion Pobl Llais Cymru. Bydd hyn yn sicrhau fod pobl yn cael eu clywed, eu deall, ac yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau.
- Gwreiddio egwyddor y Cynnig Rhagweithiol – sicrhau bod unigolion yn gallu cael gwasanaethau yn Gymraeg heb orfod gofyn amdanynt – a gwella cysondeb, ansawdd a gwelededd darpariaeth Gymraeg.
- Sicrhau bod ystyriaethau'r Gymraeg wedi'u hymgorffori mewn polisi, cynllunio, ymgysylltu a gwella gwasanaethau. Dylai hyn gynnwys hygyrchedd a phrydlondeb cyfathrebu gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

**Nid yw'r Adduned hwn yn disodli dyletswyddau statudol, ond yn hytrach mae'n cryfhau'r bartneriaeth sydd ei hangen i'w cyflawni.**

## 3. Egwyddorion a Rennir

Bydd gweithredu'r Adduned yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol yn unol â'r Egwyddorion Pobl:

- **Dylai gofal adnabod ac ymateb i'r person cyfan** – Mae anghenion iaith a diwylliant pobl yn rhan annatod o ddarparu gofal.
- **Hygyrchedd sy'n gweithio i bawb** – Bydd gwasanaethau Cymraeg ar gael ym mhob lleoliad perthnasol, gan gynnwys llwyfannau digidol, cyfathrebiadau ac ymgynghoriadau wyneb yn wyneb. Dylai gofal fod yn hygyrch pryd bynnag y mae ei angen, heb fod iaith yn rhwystr.
- **Gwasanaethau cynhwysol hygyrch a theg i bawb** – Dylai gofal adlewyrchu hawliau a hunaniaeth, a gwaredu rhwystrau sy'n gysylltiedig ag iaith a diwylliant.
- **Ymrwymiad i'r Cynnig Rhagweithiol** – Bydd Llywodraeth Cymru a Llais Cymru yn cydweithio i annog darparwyr gwasanaethau i adnabod a bodloni anghenion iaith cyn gynted â phosibl, gan leihau rhwystrau i siaradwyr Cymraeg.
- **Gwelliant Parhaus** – Bydd y ddau barti yn monitro, gwerthuso a rhannu arfer da i sicrhau bod gwasanaethau'n gwella ac yn bodloni anghenion pobl.



# 4. Rôl a Chyfrifoldebau

## 4.1 Mae Llywodraeth Cymru a Thîm Mwy na geiriau yn ymrwymo i:

- ymgorffori disgwyliadau'r Gymraeg mewn polisi cenedlaethol, canllawiau, comisiynu a fframweithiau perfformiad
- sicrhau bod byrddau iechyd, ymddiriedolaethau ac awdurdodau lleol yn deall ac yn cyflawni eu dyletswyddau iaith Gymraeg
- cefnogi cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygu sgiliau Cymraeg a hyder
- hybu'r Cynnig Rhagweithiol fel rhan hanfodol o ofal diogel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- sicrhau bod fframweithiau rheoleiddio, arolygu a gwella yn adlewyrchu gofynion y Gymraeg
- ymateb i dystiolaeth a mewnwelediadau gan Llais Cymru; gan weithredu ar bryderon, rhannu arfer da a chyfathrebu'r camau gweithredu a gymerwyd i ymateb
- Alinio Cyfreithiol ac o ran Polisïau - bydd mentrau o dan yr Adduned hwn yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

## 4.2 Mae Llais Cymru yn ymrwymo i:

- gasglu a chynrychioli barn a phrofiadau pobl, eu teuluoedd, e'u hanwyliaid a'u gofalwyr sy'n siarad Cymraeg
- monitro ac adrodd ar brofiadau o ddarpariaeth Gymraeg
- nodi bylchau, risgiau, anghydraddoldebau ac enghreifftiau o arfer da
- ymgysylltu â chymunedau Cymraeg i annog cyfranogiad
- darparu tystiolaeth a gwneud sylwadau i lywio polisi, gwelliant a gweithgaredd cynllunio Llywodraeth Cymru.

## 4.3 Ymrwymiadau ar y Cyd – ar gyfer Tîm Mwy na geiriau Llywodraeth Cymru a Llais Cymru:

- cynnal deialog reolaidd a chydweithio strwythuredig
- cydweithio ar flaenoriaethau Mwy na geiriau drwy sgyrsiau parhaus a gweithio mewn partneriaeth strwythuredig
- sicrhau bod y Gymraeg wedi'i hymgorffori mewn gweithgarwch ymgysylltu
- rhannu deallusrwydd, data, gwybodaeth a mewnwelediadau i gefnogi gwelliant, a rhannu canfyddiadau gyda'r cyhoedd
- hyrwyddo gwerth y Gymraeg fel iaith gofal drwy gyfathrebu ac arweinyddiaeth ar y cyd, gan gynnwys modelu arfer da mewn iaith glir, ddwyieithog a hygyrch.

## 5. Data, Tystiolaeth a Mewnwelediad

Yn benodol, bydd Tîm Mwy na geiriau yn Llywodraeth Cymru a Llais Cymru yn cydweithio i:

- wella'r gwaith o gasglu data ar anghenion y Gymraeg a'r ddarpariaeth
- dadansoddi tueddiadau, anghydraddoldebau a phrofiadau pobl
- defnyddio tystiolaeth i lywio polisi, comisiynu a gwelliant a
- chyhoeddi canfyddiadau lle bo'n briodol er mwyn cefnogi tryloywder a dysgu.

## 6. Llywodraethu ac Atebolrwydd

- Bydd cyfle i adolygu a diweddaru cynnydd, nodi newidiadau a chytuno ar flaenoriaethau drwy gyfarfod ar y cyd (ddwywaith y flwyddyn). Gellir hefyd ddarparu diweddariadau ar gynnydd fel rhan o'r Cyfarfodydd Partneriaeth presennol rhwng Llywodraeth Cymru a Llais Cymru. Bydd adborth o'r cyfarfodydd hefyd yn cael ei rannu gyda rhwydweithiau ehangach, a Bwrdd Cynghori Mwy na geiriau.
- Bydd arweinwyr gweithredol o'r ddau sefydliad yn cyfarfod yn chwarterol i gydlynu gweithgarwch.
- Bydd crynodeb blynyddol o gynnydd yn cael ei gynhyrchu (i'w gynnwys yn Adroddiad Blynyddol Mwy na geiriau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru ac i'w gyhoeddi gan Llais Cymru fel rhan o'u Hadroddiad Blynyddol) – gan amlinellu cyflawniadau, heriau a chamau nesaf.
- Bydd materion sy'n peri pryder yn cael eu huwch-gyfeirio drwy'r trefniadau llywodraethu a gytunwyd o fewn Llywodraeth Cymru a Llais Cymru – gan ystyried strwythurau llywodraethu ehangach a rôl bresennol y Cyfarfodydd Partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llais Cymru.

## 7. Adolygu ac Adnewyddu

Bydd yr Adduned hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol, yn effeithiol ac yn cyd-fynd â:

- blaenoriaethau Mwy na geiriau
- blaenoriaethau yng Nghynlluniau Strategol a Blynyddol Llais Cymru
- newidiadau mewn deddfwriaeth neu bolisi
- tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg a phrofiad pobl sy'n defnyddio gwasanaethau.

**Bydd diwygiadau'n cael eu cytuno ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Llais Cymru.**



## Llofnodwyr

**Dros Mwy na geiriau:**

*Dyfed Rowlands*

Swyddog Polisi Mwy na geiriau

**Dyddiad:** *07/08/2026*

**Dros Llais:**

*Yr Athro Medwin Hughes*

Cadeirydd Llais Cymru

**Dyddiad:** *07/08/2026*

**Yn cefnogi – dros Fwrdd Cynghori Mwy na geiriau:**

*Elin Wyn*

Cadeirydd Bwrdd Cynghori Mwy na geiriau

**Dyddiad:** *07/08/2026*

**NEGESEUON ALLWEDDOL: Adduned ar y Cyd y Gymraeg Llywodraeth Cymru a Llais Cymru.**

Mae Llywodraeth Cymru a Llais Cymru wedi cytuno ar Adduned ar y Cyd sy'n nodi sut y byddwn yn cydweithio i gryfhau gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

## Pam fod yr Adduned hwn yn bwysig

I lawer, y Gymraeg yw'r iaith y maent yn teimlo fwyaf cyfforddus a diogel ynddi – yn arbennig mewn sefyllfaoedd iechyd a gofal lle mae cyfathrebu clir yn hanfodol. Mae'r Adduned yn sicrhau bod llais pobl, eu teuluoedd, anwyliaid a'u gofalwyr sy'n siarad Cymraeg yn cael ei glywed a'u hanghenion yn cael eu bodloni.

**Dylai pobl allu:**

- cyfathrebu yn Gymraeg heb orfod gofyn
- derbyn gwybodaeth glir, amserol sy'n hawdd ei deall yn eu dewis iaith
- teimlo fod pobl yn gwrando arnynt, yn cael eu deall a'u trin gydag urddas a pharch
- gwybod sut mae'u hadborth wedi gwneud gwahaniaeth.



**Beth fydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud:**

- sicrhau bod polisïau cenedlaethol yn cefnogi gwasanaethau Cymraeg
- gosod disgwyliadau clir i fyrddau iechyd, ymddiriedolaethau ac awdurdodau lleol
- datblygu sgiliau'r gweithlu fel eu bod â'r hyder i ddefnyddio'r Gymraeg
- hyrwyddo'r Cynnig Rhagweithiol.

**Beth fydd Llais Cymru yn ei wneud:**

- gwrando ar bobl a gofalwyr Cymraeg sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
- adrodd ar eu profiadau
- nodi lle mae gwasanaethau yn gweithio'n dda a lle mae angen gwelliannau.

**Bydd Llywodraeth Cymru a Llais Cymru yn gweithio mewn partneriaeth i:**

- wella cysondeb a gwelededd gwasanaethau Cymraeg
- rhannu tystiolaeth, mewnwelediad ac arfer da
- cefnogi cymunedau Cymraeg eu hiaith i lunio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
- hyrwyddo gwerth y Gymraeg fel iaith gofal.

## Sut y caiff cynnydd ei fonitro

Byddwn yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu cynnydd, nodi heriau a chytuno ar gamau nesaf. Bydd diweddariad blynyddol ar y cyd yn cael ei gyhoeddi fel bod y cyhoedd yn gallu gweld sut mae'r Adduned yn cael ei weithredu.

## Ein hymrwymiad ar y cyd

Mae'r Adduned hwn yn adlewyrchu ein cred ar y cyd y dylai pawb allu derbyn gofal yn yr iaith sy'n teimlo'n iawn iddynt. Drwy gydweithio, bydd Llywodraeth Cymru a Llais Cymru yn helpu i wneud y Gymraeg yn rhan naturiol, hyderus a gweladwy o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru.

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG54756 ISBN digidol 978-1-80853-168-2
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg